

2014 Rhif 2578 (Cy. 254)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy),
Sir Ddinbych i Gyffordd 24
(Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2014

Gwnaed

26 Awst 2014

Yn dod i rym

1 Medi 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych i Gyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd yn Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Awst 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Bodelwyddan).

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol) i ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Bodelwyddan).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).